# Post Penalltau

01443 862974
ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk
ysgolpenalltau.com

YSGOL GYMRAEG PENALLTAU

**Post Penalltau – 18/03/2026**

**SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION**

RIGHTS RESPECTING SCHOOLS
unicef
UNITED KINGDOM
BRONZE – RIGHTS COMMITTED

**PAWB**
**Gwobr Efydd Hawliau'r Plant (UNICEF)**
Rydym yn hynod falch o fod yn ysgol sy'n Parchu Hawliau ac o fod wedi ennill y Wobr Efydd Parchu Hawliau. Ond, nid yw'r gwaith yn dod i ben yno - rydym bellach yn gweithio ar ennill y Wobr Arian Parchu Hawliau. Nid yw hyn oherwydd ein bod eisiau bathodyn neu dystysgrif, ond oherwydd ein bod am wella addysg ein plant a'u dyfodol yn wirioneddol.

Mae gweledigaeth a gwerthoedd ein hysgol yn ganolog i bwysigrwydd trin ein gilydd fel y byddem am gael ein trin ein hunain, gyda pharch ac urddas, gan sicrhau bod pob person yn cael ei werthfawrogi. Dyma un o'r rhesymau pam mae gwaith UNICEF ac Ysgolion sy'n Parchu Hawliau mor arwyddocaol i ni.
Beth yw Ysgol sy'n Parchu Hawliau?

Mae Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF y DU (RRSA) yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb, urddas, parch, peidio â gwahaniaethu a chyfranogiad. Mae'r RRSA yn ceisio gosod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth galon ethos a diwylliant ysgol i wella llesiant a datblygu doniau a galluoedd pob plentyn i'w llawn botensial.

Mae ysgol sy'n parchu hawliau yn gymuned lle mae hawliau plant yn cael eu dysgu, eu haddysgu, eu hymarfer, eu parchu, eu hamddiffyn a'u hyrwyddo. Mae pobl ifanc a chymuned yr ysgol yn dysgu am hawliau plant trwy eu rhoi ar waith bob dydd. Teimlwn ei bod yn bwysig pan fydd plant yn dysgu am eu hawliau ei bod yn bwysig bod cysylltiadau dyfnach hefyd yn cael eu gwneud yn eu dealltwriaeth o natur hawliau.

Mae'n ofynnol i Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF y DU weithredu pedair safon sy'n seiliedig ar dystiolaeth:
-Mae gwerthoedd parchu hawliau yn sail i arweinyddiaeth a rheolaeth.
-Mae cymuned yr ysgol gyfan yn dysgu am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

-Mae gan yr ysgol ethos sy'n parchu hawliau.
-Plant yn cael eu grymuso i ddod yn ddinasyddion gweithgar ac yn ddysgwyr.
I gael gwybod mwy ewch i'r wefan hon: **https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/**
Ymlaen a ni i ennill y wobr arian!




**PAWB**

**Holiadur Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gryfhau gwaith y Pwyllgor Rhieni ac Athrawon (PTA) a chynnig y profiadau gorau posibl i'n disgyblion, hoffem wahodd chi i gwblhau holiadur byr. (linc isod). Mae eich barn yn hollbwysig i ni, ac rydym am sicrhau bod y gweithgareddau a gynigir gan y CRhA yn adlewyrchu anghenion a diddordebau ein cymuned ysgol.

Mae'r holiadur yn gofyn am weithgareddau sydd wedi gweithio'n dda, rhai sydd ddim wedi bod cystal, ac unrhyw awgrymiadau neu syniadau newydd ar gyfer y dyfodol. Bydd eich ymatebion yn ein helpu i wella'r digwyddiadau rydym yn eu trefnu, a sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r hyn sy'n digwydd.

Diolch yn fawr iawn ymlaen llaw am eich amser a'ch mewnbwn gwerthfawr.

https://forms.office.com/e/bZJdc7dTwJ?origin=lprLink



**DERBYN**
**ATGOF: Asesiadau Golwg a Thwf**

Mae'r Tîm Nyrsio Ysgol yn ymweld â phob ysgol i brofi golwg pellter ac i fesur twf plant oed derbyn. Mae hyn yn rhan o'r Adolygiad Mynediad i'r Ysgol. Yna caiff canlyniadau eich plentyn eu rhannu'n ddienw gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o Raglen Mesur Plant Cymru.

Cwblhewch y ffurflen ar y ddolen isod os **nad ydych am** i'ch plentyn gymryd rhan yn yr Adolygiad Mynediad i'r Ysgol (SER) a/neu Raglen Mesur Plant Cymru ar 20/04/26 a 21/04/26.

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPrpjwJET7BaRHuS7lYoYyXMlUOTVCVzZUTTE2NjYzSEk5OU4xTUJVMTVTSy4u

Am wybodaeth am sut mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn defnyddio eich data, gweler y Hysbysiad Preifatrwydd ABUHB:

abuhb.nhs.wales/files/information-governance/privacy-notice-general/



**PAWB**

**ATGOF: Helfa Wyau Pasg – 26/03/2026**

Bydd CRhA yn cynnal helfa wyau Pasg ar **Ddydd Iau, 26 Mawrth 2026**, rhwng **3:30 – 4:30yp**. Gofynnwn i rieni/gwarcheidwaid gasglu'r plant o'u dosbarthiadau fel arfer ac yna gwneud eu ffordd i'r derbynfa ar gyfer dechrau'r helfa.

Rhaid i blant fod **wedi'u hebrwng gan oedolyn**, gan y bydd yr helfa'n digwydd yn y gymuned leol ac **nid ar safle'r ysgol**.

Rydym yn edrych ymlaen at helfa hwyliog i bawb!

**PAWB**
**ATGOF: Urdd - Gwersyll Aml Chwaraeon - Pasg**



**PAWB**
**ATGOF: Her y Mis – Dreigiau**






**PAWB**

**ATGOF: Rhai Dyddiadau Pwysig i'ch Dyddiadur**

- 19/03/2026 – 20/03/2026 – Taith Breswyl Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd
- 21/03/2026– Eisteddfod Rhanbarth
- 26/03/2026 – Helfa Pasg
- 13/04/2026 – Diwrnod Hyfforddiant Athrawon
- 05/05/2026 – Noson Crefftau ar gyfr Blwyddyn 1 a 2
- 11/05/2026 – 15/05/202 – Taith Breswyl Bl 6 – Llangrannog
- 21/05/2026 – Noson ffilm – Blwyddyn 3 - 6
- 01/06/2026 – Diwrnod Hyfforddiant Athrawon
- 26/06/2026 – Ffair Haf
- 07/07/2026 – Disgo Ysgol

Gellir darganfod rhestr o wyliau a ddyddiadau trwy ddilyn y ddolen hon:

Caerphilly - Caerphilly County Borough

**EVERYONE**
**Bronze Award – Rights Respecting School (UNICEF)**

We are extremely proud to be a Rights Respecting School and to have achieved the Bronze Rights Respecting Award. But the work doesn't end there – we are now working towards achieving the Silver Rights Respecting Award. This isn't because we want a badge or a certificate, but because we genuinely want to improve our children's education and their future.

The vision and values of our school are central to the importance of treating each other as we would like to be treated ourselves, with respect and dignity, ensuring every person is valued. This is one of the reasons why the work of UNICEF and Rights Respecting Schools is so significant to us.
What is a Rights Respecting School?

The UNICEF UK Rights Respecting Schools Award (RRSA) is based on the principles of equality, dignity, respect, non-discrimination, and participation. The RRSA aims to place the United Nations Convention on the Rights of the Child at the heart of a school's ethos and culture to improve wellbeing and develop the talents and abilities of every child to their full potential.

A rights respecting school is a community where children's rights are learned, taught, practised, respected, protected, and promoted. Young people and the whole school community learn about children's rights by putting them into practice every day.

We feel that when children learn about their rights, it is important that they also develop a deeper understanding of the nature of rights.
UNICEF UK Rights Respecting Schools are required to implement four evidence-based standards:

Rights respecting values underpin leadership and management.
The whole school community learns about the United Nations Convention on the Rights of the Child.

The school has a rights respecting ethos.
Children are empowered to become active citizens and learners.
To find out more, visit this website: https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/
Onward we go to achieve the Silver Award!




**EVERYONE**
**PTA Questionnaire**

As part of our ongoing commitment to strengthening the work of our Parent–Teacher Association (PTA) and providing the best possible experiences for our pupils, we would like to invite you to complete a short questionnaire (link below). Your views are extremely important to us, and we want to ensure that the activities offered by the PTA reflect the needs and interests of our school community.

The questionnaire asks about activities that have worked well, those that have been less successful, and any ideas or suggestions for future events. Your responses will help us improve the events we organise and ensure that everyone feels part of what's happening.

Thank you in advance for your time and valuable input.

https://forms.office.com/e/bZJdc7dTwJ?origin=lprLink



**RECEPTION**
**REMINDER: Vision and Growth Assessments**

**The School Nursing Team will be visiting all schools to carry out distance-vision tests and measure the growth of children in Reception.**
This forms part of the **School Entry Review (SER)**. Your child's results will also be shared **anonymously** with **Public Health Wales** as part of the **Child Measurement Programme for Wales**.

If you **do NOT want your child to take part** in the School Entry Review (SER) and/or the Child Measurement Programme on **20/04/26** and **21/04/26**, please complete the form at the link below:

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPrpjwJET7BaRHuS7lYoYyXMlUOTVCVzZUTTE2NjYzSEk5OU4xTUJVMTVTSy4u

For information about how Aneurin Bevan University Health Board uses your data, please see the ABUHB Privacy Notice:
abuhb.nhs.wales/files/information-governance/privacy-notice-general/



**EVERYONE**
**REMINDER: Easter Egg Hunt – 26/03/2026**

The PTA will be holding an Easter Egg Hunt on **Thursday, 26th March 2026**, from **3:30 – 4:30pm**. Parents/guardians are asked to collect children from their classes as normal and then make their way to reception for the start of the hunt.

Children must be **accompanied by an adult**, as the hunt will take place in the local community and **not on the school site**.

We look forward to a fun afternoon for everyone!


## EVERYONE

## REMINDER: Urdd - Easter Sports Camp



**EVERYONE**

**REMINDER: Dragon's Monthly Challenge**






## EVERYONE

## REMINDER: Some Important Dates for Your Diary

- 19/03/2026 – 20/03/2026 – Year 4 Residential Trip – Cardiff Bay
- 21/03/2026 – Regional Eisteddfod
- 26/03/2026 – Easter Egg Hunt (after school)
- 13/04/2026 – Teachers Training Day
- 05/05/2026 – Craft evening for Year 1 and 2
- 11/05/2026 – 15/05/202 – Year 6 Residential Trip – Llangrannog
- 21/05/2026 – Movie Night for Year 3 - 6
- 1/06/2026 – Teachers Training Day
- 26/06/2026 – Summer Fair
- 07/07/2026 – School Disco

A list of School holidays and dates can be found by following this link:

Caerphilly - Caerphilly County Borough

**Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi /** ***Important contact details that could be of use to you:***

**Caerphilly Employment Support:** 01443 864227
**Samaritans:** 116 123 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Wales Domestic Abuse Helpline:** 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / *every day*).
**Mind Cymru:** 0300 123 3393
**Childline:** 0800 1111 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Women's Aid:** 01495 742061 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Eastern Valley Food Bank:** 01495 760605

Mae Croeso i chi gysylltu gyda Ysgol Gymraeg Penalltau yn Gymraeg neu Saesneg
You are welcome to contact Ysgol Gymraeg Penalltau in Welsh or English

Cymraeg